

BRAZELL, DAVID (1875 - 1959), datganwr

Enw: David Brazell
Dyddiad geni: 1875
Dyddiad marw: 1959
Priod: Catherine Brazell (née Hughes)
Rhiant: Mary Brazell
Rhiant: John Brazell
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: datganwr
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Huw Williams

Ganwyd yn Cesail Graig, y Pwll, ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin, 23 Chwefror 1875, yn fab i John a Mary Brazell. Fe'i magwyd ar aelwyd gerddorol; yr oedd ei dad (glöwr wrth ei alwedigaeth) yn bur hoff o gerddoriaeth, a dau o'i frodyr, John a Thomas, yn gerddorion pur amlwg, gyda'r naill yn rhagori fel unawdydd tenor, a'r llall fel arweinydd corawl ac fel arweinydd y gân yn eglwys Annibynnol y Pwll. Aethai David a John ar daith saith mis i T.U.A. gyda chôr Llanelli yn 1909-10; bu John farw ar y llong '*Mauretania*' wrth dychwelyd i Brydain o Efrog Newydd.

Ar ôl gadael ysgol elfennol y Pwll aeth i weithio i'r diwydiant alcam, gan ymroi i astudio cerddoriaeth yn Llanelli yn ei oriau hamdden, yn gyntaf gyda Maggie Aubrey, ac yn ddiweddarach gyda R.C. Jenkins, arweinydd Cymdeithas Gorawl Llanelli, a gŵr a fu'n astudio wrth draed **Joseph Parry**. Bwridd ei brentisiaeth fel datganwr yn yr eisteddfod, ac ar gymhelliad R.C. Jenkins aeth i'r Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain ym mis Mai 1901, lle y bu'n astudio am bum mlynedd gyda Frederic King (canu), Frederic Corder (cynghanedd a gwrthbwynt), ac Edgardo Levi (opera). Cafodd yrfa ddisglair fel myfyriwr; enillodd chwech o fedalau'r academi, a chymerodd ran amlwg mewn perfformiadau o rai o'r prif operâu yno. Ar derfyn ei gwrs yn 1906 cynigiwyd iddo ymrwmiadau gyda rhai o'r prif gwmnïau opera, ond er iddo ymaelodi dros gyfnod byr â Chwmni Opera Carl Rosa, dewisodd ddilyn gyrfa fel datganwr proffesiynol ar ei liwt ei hun.

Bu'n cyngerddda yn y mwyafrif o'r prif ddinasoedd yng Nghymru ac yn Lloegr, yn ogystal ag ar y cyfandir. Canodd hefyd yng nghyngherddau'r Eisteddfod Genedlaethol ac yng Ngŵyl Harlech, a daeth yn ffefryn mawr gyda rhai o brif gyfansoddwyr ei ddydd. Ar gais Edward German cymerodd ran 'The Earl of Essex' yn ei opera *Merrie England* yn Bournemouth, ac fe'i gwahoddwyd gan Edward Elgar i ganu mewn perfformiadau cynnar o'i oratorio *The Dream of Gerontius*. Cyfansoddwr arall a'i hedmygai oedd **D. Vaughan Thomas**, a ysgrifennodd a chyflwyno iddo ei gân adnabyddus 'Angladd y Marchog', yn ogystal â'i drefniant o 'Y bwthyn bach to gwellt' ('**Crych Elen**', Thomas Lloyd.

Yr oedd yn berchen llais bariton swynol a chyfoethog, a bob amser o dan lywodraeth gadarn, a chan fod ei arddull ac ansawdd ei lais yn ddelfrydol i bwrpas recordio y mae'n un o'r rhai cyntaf y gwelir ei enw yng nghatalogau'r cwmnïau gramoffôn. Dechreuodd recordio ar roliau cŵyr cyn troad y ganrif, a pharhaodd i recordio (baledi, detholion o opera ac oratorio, a chaneuon Cymraeg) ar ddisciau 78 i tua hanner dwsin o wahanol gwmnïau hyd at y tri degau.

Yr oedd yn gyfeillgar â llu o gerddorion amlwg a dylanwadol. Ef a ysbrydolodd Katie Moss (yn 1910) i ysgrifennu 'The Floral Dance' wedi ei seilio ar alaw o Gernyw, cân a ddaeth yn un o brif ffefrynnau'r datganwr Peter Dawson. Priododd yn 1938 â Catherine Hughes, prifathrawes ysgol Coleshill, Llanelli. Bu farw yn ysbyty Bryntirion, Llanelli, 28 Rhagfyr 1959, ac amlogwyd ei gorff yn Nhreforus.

Awdur

Huw Williams, (1922 - 2002)

Ffynonellau

Y Cerddor, Mai 1910, Gorffennaf 1910, a Mehefin 1911

Cerddoriaeth Cymru, cylchgrawn y Gymdeithas er hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru, 3, Gaeaf 1970, 8, 25

Peter Dawson, *Fifty years of Song* (Llundain 1951)

dyddiad ei eni a'i farw trwy law ei nith, Mrs. Morfudd Beynon, Pembre

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20738026**

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Williams, H., (1997). BRAZELL, DAVID (1875 - 1959), datganwr. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-BRAZ-DAV-1875>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government